# Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Blaenau Gwent (Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin)

## Adroddiad Asesu Blynyddol 2019/20

Paratowyd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan wasanaeth Blaenau Gwent i Is-adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru.

## 1 Crynodeb gweithredol

Bodlonodd Blaenau Gwent bob un o'r 12 hawl graidd yn llawn.

O'r 9 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Blaenau Gwent 7 yn llawn, cyflawnodd 1 yn rhannol, a methodd â chyflawni 1.

Darperir gwasanaethau llyfrgell ym Mlaenau Gwent gan Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin ar ran yr awdurdod lleol, a nodir eu bod yn rhan allweddol o gynlluniau'r awdurdod lleol a'r Ymddiriedolaeth ar gyfer darparu gwasanaethau. Mae'r gwasanaeth yn parhau i ddibynnu ar staff o rannau eraill o'r Ymddiriedolaeth, y Cyngor a sefydliadau partner i helpu i ddarparu gwasanaethau. Mae cadernid y gwasanaeth yn y dyfodol yn parhau i beri pryder. Mae'r gwaith partneriaeth parhaus gyda sefydliadau allweddol yn parhau yn un o gryfderau'r gwasanaeth ac yn galluogi Blaenau Gwent i ddiwallu'r anghenion o fewn cymunedau a darparu gweithgareddau priodol. Mae staff y gwasanaeth yn parhau yn un o'i gryfderau, ac mae ffocws cryf ar hyfforddiant staff. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu gan y ffaith fod 99% o'r cwsmeriaid o'r farn fod safon y gofal cwsmeriaid yn dda neu'n dda iawn, er bod lefelau staffio'n parhau'n isel iawn. Mae'r gwasanaeth yn derbyn sgôr dda am y gwahaniaeth y mae'n ei wneud i fywydau pobl a'r effaith y mae'n ei chael ar eu bywydau. Mae'n braf gweld bod y cynnydd bach yn y gronfa lyfrau wedi arwain at gynnydd yn nifer y benthyciadau a'r benthycwyr gweithredol, ac yn y gyfran sy'n dweud eu bod yn teimlo bod y dewis o lyfrau'n dda neu'n dda iawn. Nid yw effaith yr adolygiad newydd a gynhaliwyd yn 2019 yn glir, ond mae'n hanfodol mewn unrhyw gynlluniau yn y dyfodol bod y lefelau staffio ac adnoddau yn briodol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau statudol.

- Mae canran yr oedolion sy'n cael profiad o'r llyfrgell fel man diogel a chynhwysol y maent yn mwynhau mynd iddo yn parhau'n uchel.

- Gwelwyd cynnydd aruthrol o 130% mewn lawrlwythiadau electronig, ond dim ond cyfran ohono y gellir ei briodoli i effaith Covid-19 yn wythnosau a mis diwethaf y cyfnod adrodd.

- Mae'r oriau agor blynyddol cyfanredol wedi cynyddu 20% er 2018/19, ond maent yn parhau'n is na'r canolrif yng Nghymru.

- Yn gyffredinol, mae nifer y staff wedi gostwng ychydig yn 2019/20 a nodir bod hyn o ganlyniad i geisiadau staff am ymddeoliad hyblyg. Nid yw'r targed cyffredinol ar gyfer staff fesul pen o'r boblogaeth yn cael ei gyflawni, ac mae'n parhau ymhlith yr isaf yng Nghymru, ac yn achosi pryder.

- Lansiodd y gwasanaeth gynllun ‘dim dirwyon’ ym mis Mawrth 2020, a gallai’r dull newydd hwn o fenthyca leihau rhwystrau a chynyddu aelodaeth, ynghyd â chael effaith gadarnhaol drwy greu Cymru fwy cyfartal.

## 2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn. Ceir asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3. Cyfyngwyd ar yr asesiad i ryw raddau gan y ffaith y gofynnwyd i awdurdodau lleol wneud sylw ar unrhyw newidiadau i ddatganiad y flwyddyn flaenorol yn unig, ynghyd â sylwadau ychwanegol ar hawliau craidd a gyflawnwyd yn rhannol/na chawsant eu cyflawni.

### 2.1 Hawliau craidd

Mae Blaenau Gwent yn parhau i gyflawni pob un o’r 12 Hawl Graidd yn llawn.

### 2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) ac mae gan 10 ohonynt dargedau yn rhan ohonynt. Oherwydd effaith Covid-19, cafodd 3 dangosydd ansawdd eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, ac roedd targed yn rhan o un ohonynt. O’r **naw** targed sydd ar ôl ar gyfer 2019/20, mae Blaenau Gwent wedi cyflawni 7 ohonynt yn llawn, wedi cyflawni 1 ohonynt yn rhannol, ac wedi methu â chyflawni 1 ohonynt.

| Dangosydd Ansawdd | Cyflawni? | |
|---|---|---|
| DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol | | Cyflawni'n llawn |
| a) Cymorth TGCh | √ | |
| b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth | √ | |
| c) Cymorth e-lywodraeth | √ | |
| d) Datblygu darllenwyr | √ | |
| DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles | | Cyflawni'n llawn |
| i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau | √ | |
| ii) Cynllun Llyfrau Llesol | √ | |
| iii) Casgliad penodol i iechyd a lles | √ | |
| iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw | √ | |
| v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles | √ | |
| DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth | √ | Cyflawni'n llawn |
| DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | Heb ei gyflawni |
| Derbyniadau fesul pen y boblogaeth | x | |
| neu Wariant ar ddeunyddiau fesul pen | x | |
| DA 10 – Adnoddau Cymraeg | | Cyflawni'n llawn |
| % y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg | √ | |
| neu Wariant ar y Gymraeg fesul pen | √ | |
| DA 11 – Mynediad ar-lein: | | Cyflawni'n llawn |
| a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngrwyd | √ | |
| ii) Darpariaeth Wi-Fi | √ | |
| DA 12 – Cyflenwi ceisiadau | | Cyflawni'n llawn |
| a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod | √ | |
| b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod | √ | |
| DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau: | | Cyflawni'n rhannol |
| i) Staff fesul pen y boblogaeth | x | |
| ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth | x | |
| iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth | √ | |
| DA 16 – Oriau agor fesul pen y boblogaeth | √ | Cyflawni'n llawn |

Mae Blaenau Gwent wedi cynnal ei berfformiad yn nhrydedd flwyddyn y chweched fframwaith, â gwelliant mewn adnoddau Cymraeg yn 2019/20.

## 2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi'u hanelu at asesu'r effaith y mae defnyddio llyfrgelloedd yn ei chael ar fywydau pobl. Nid yw'r dangosyddion hyn yn cynnwys targedau, a dim ond unwaith dros gyfnod tair blynedd y fframwaith y mae'n ofynnol i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA 1. Er hyn, mae Covid-19 wedi effeithio ar y mesur hwn a chafodd rhai o gynlluniau'r awdurdod i gynnal arolwg yn chwarter cyntaf 2020 eu canslo. Felly, mae'r ffigurau cryno (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny a nododd eu bod wedi cwblhau eu harolwg defnyddwyr yn ystod fframwaith 6. Mae'r drefn yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, gydag 1 yn nodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf.

Cynhaliodd Blaenau Gwent ei arolwg o ddefnyddwyr sy'n oedolion a'i arolwg o ddefnyddwyr sy'n blant ym mis Tachwedd 2019.

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 – Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 94% | *=5/19* | 60% | 89% | 97% |
| e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 99% | *1/19* | 41% | 85% | 99% |

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Blaenau Gwent bedair astudiaeth achos o'r fath, ynghyd ag adborth ehangach gan ddefnyddwyr:

- Grŵp Nam ar y Golwg – Sesiwn celf ar gyfer aelodau â nam ar eu golwg. Trefnwyd y gweithgaredd hwn mewn ymateb i adborth gan gwsmeriaid y gwasanaeth danfon i gartrefi. Roedd hwn yn ddigwyddiad llwyddiannus a gafodd effaith gadarnhaol ar lesiant y rhai a fu'n cymryd rhan ynddo.
- Grŵp Plant Bach yn Llyfrgell Glynebwy – mae'r sesiynau hyn yn annog plant a theuluoedd o bob oed i ymuno â sesiwn stori yn y llyfrgell. Mae'r sesiynau'n helpu i feithrin hoffter o lyfrau a darllen. Mae'r sesiynau di-dâl hyn hefyd yn darparu technegau amrywiol i rieni er mwyn annog darllen yn y cartref.
- Cefnogaeth i drigolion sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol – mae llyfrgelloedd yn chwarae rhan bwysig iawn drwy gefnogi'r unigolion hynny sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Mae'r cynllun hwn yn dangos sut y mae llyfrgelloedd yn diwallu anghenion eu cymunedau drwy leihau anghydraddoldeb cymdeithasol a darparu cefnogaeth i'r bobl fwyaf agored i niwed mewn meysydd o bob math, yn amrywio o geisiadau am bàs bws i fudd-dal tai.
- Ceisiwr gwaith yn dod o hyd i waith – mae Llyfrgell Blaenau yn cynnig clwb swyddi yn rheolaidd. Mae aelod o'r llyfrgell yn credu bod y llyfrgell wedi ei helpu i chwilio am waith, a bod hynny wedi ei helpu i ddod o hyd i waith. Mae'r gwasanaeth llyfrgell yn chwarae rhan allweddol drwy alluogi pobl i ddod o hyd i swyddi a chyfleoedd dysgu priodol, mewn amgylchedd cyfforddus a chyfeillgar.

## 2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Er bod cyfyngiadau Covid-19 yn parhau i achosi her i bob gwasanaeth llyfrgell yng Nghymru, mae gwytnwch staff, eu proffesiynoldeb a'u gofal dros y gymuned y maent yn ei gwasanaethu wedi bod yn eithriadol. Er bod gwasanaethau digidol wedi cynyddu, gwyddom o dystiolaeth a ddarparwyd fod cwsmeriaid yn colli eu gwasanaethau llyfrgell. Maent yn colli'r staff, pori drwy'r silffoedd, y ddarpariaeth TG, y mannau cymunedol a'r grwpiau, fel y grwpiau gwau a chlonc. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y llyfrgell fel lle i fynd iddo, ac effaith rhyngweithio â staff llyfrgell ar lesiant y cwsmeriaid.

Nid oes gan y dangosyddion sy'n weddill dargedau, ond maent yn galluogi gwasanaethau i fonitro a meincnodi eu perfformiad dros gyfnod, gan gymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Blaenau Gwent ar gyfer 2019/20. Nodir safle allan o 22, gydag 1 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf a 22 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Nid oedd data perthnasol ar gael i rai awdurdodau, fel y gwelir yn y dangosyddion lle y darparodd llai na 22 o awdurdodau ddata. Nodwyd ffigurau o ail flwyddyn y chweched fframwaith neu o arolygon blaenorol perthnasol hefyd er mwyn gallu cymharu. Caiff dangosyddion 'fesul pen' o'r boblogaeth eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir yn wahanol.

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf | *2017/18* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 – Gwneud gwahaniaeth | | | | | | *[Fframwaith 5]* |
| a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 91% | *=2/18* | 25% | 75% | 94% | *90%* |
| c) iechyd a lles | 70% | *9/19* | 38% | 69% | 96% | *94%* |
| d) lle diogel a chroesawgar | 99% | *=2/19* | 90% | 96% | 100% | *98%* |
| DA 2 – Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | | *[Fframwaith 6]* |
| a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau | 91% | *=7/18* | 78% | 91% | 99% | *88%* |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da' | 99% | *=3/18* | 88% | 97% | 100% | *99%* |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da' | 91% | *=5/17* | 65% | 85% | 99% | *dd/b* |
| d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol; | 98% | *=5/18* | 85% | 96% | 100% | *98%* |
| e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau | 9.3 | *= 7/19* | 8.0 | 9.1 | 9.5 | *9.4* |
| DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell[1] | | | | | | |
| a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth | 4380 | *5/22* | 2429 | 3987 | 6874 | *4234* |
| b) rhith-ymweliadau fesul pen | 395 | *19/22* | 239 | 909 | 2131 | *353* |
| c) benthycwyr gweithredol fesul pen | 86 | *20/22* | 78 | 145 | 244 | *80* |
| DA 10 – Benthyciadau Cymraeg fesul pen[2] | 311 | *22/22* | 311 | 680 | 1468 | *95* |
| DA 11 – Mynediad ar-lein | | | | | | |
| b) cyfrifiaduron fesul 10,000 | 9 | *11/22* | 5 | 10 | 14 | *9* |
| c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd | 35% | *4/22* | 14% | 30% | 64% | *33%* |
| DA 14 – Gwariant gweithredol | | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant fesul pen | £8,513 | *18/22* | £7,260 | £12,448 | £23,333 | *£8,610* |
| b) % ar staff | 69% | *7/22* | 48% | 61% | 76% | *73%* |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 9% | *=18/22* | 5% | 13% | 22% | *8%* |
| % ar offer ac adeiladau | 6% | *10/22* | 0% | 8% | 21% | *8%* |
| % ar gostau gweithredol eraill | 16% | *=11/22* | 1% | 18% | 35% | *11%* |
| c) gwariant cyfalaf fesul pen | £0 | *22/22* | £0 | £1,567 | £13,027 | *£0* |
| DA 16 – Oriau agor[3] | | | | | | |
| (iii) a) % oriau cau mannau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny | 0.00% | *=1/22* | 0.00% | 0.23% | 3.96 | *0.00%* |
| b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd | 0.00% | *=1/22* | 0.00% | 1.07% | 5.41% | *0.00%* |

*[1] rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith fod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân; [2] fesul 1,000 y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; [3] Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).*

# 3 Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn y chweched fframwaith (2017/18 a 2018/19).

## 3.1 Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)[i]

Cynhaliodd Blaenau Gwent ei arolwg o ddefnyddwyr sy'n oedolion a'i arolwg o ddefnyddwyr sy'n blant ar gyfer DA 1 a DA 2 ym mis Tachwedd 2019. Er bod gostyngiad

wedi bod yn y sgorau ar gyfer sut y mae'r gwasanaeth yn cefnogi iechyd a llesiant oedolion, nid oes llawer o newid wedi bod mewn meysydd eraill. Gellir priodoli'r gostyngiad o 24% yn yr oedolion sydd "wedi dod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol am iechyd a llesiant yn y Llyfrgell" i'r ffaith fod swyddog cefnogi Gwybodaeth Macmillan dynodedig yn y Gwasanaeth yn ystod y fframwaith blaenorol, ond nad yw yno mwyach, er bod gan y gwasanaeth ymrwymiad cryf i iechyd a llesiant o hyd. Mae'r gwasanaeth yn parhau i ddarparu amrywiaeth eang o weithgareddau i bob oed.

### 3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)[ii]

Mae cau pob llyfrgell ar 20 Mawrth 2020 oherwydd Covid-19 hefyd wedi effeithio ar y defnydd o lyfrgelloedd. Mae Blaenau Gwent yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth. Mae defnydd o'r llyfrgell wedi cynyddu'n raddol er 2017/18, ac mae nifer y benthycwyr gweithredol wedi cynyddu 7% er 2018/19, er gwaethaf gostyngiad o 10% yng nghyfanswm yr aelodau o'r llyfrgell fesul pen o'r boblogaeth. Mae'r gwasanaeth yn nodi y gallai hyn fod o ganlyniad i'r gwaith o lanhau data aelodaeth. Mae gwelliant yn y gyllideb ddeunyddiau wedi cael effaith gadarnhaol yn y maes hwn.

Fel y nodwyd yn 2018/19, mae perfformiad Blaenau Gwent yng nghyswllt benthyciadau llyfrau plant yn parhau ymhlith yr isaf fesul pen o'r boblogaeth yng Nghymru. Er bod benthyciadau llyfrau plant wedi gostwng, mae Blaenau Gwent wedi parhau i weld cynnydd yn nifer y benthyciadau llyfrau oedolion, â chynnydd o 15% er 2017/18, o bosibl yn sgil cynnydd yn y gronfa lyfrau.

Gwelwyd cynnydd mewn lawrlwythiadau electronig, sydd wedi cynyddu 57% er 2018/19, a gellir priodoli hyn yn rhannol i effaith Covid-19. Mae'r defnydd cynyddol o'r cyfryngau cymdeithasol hefyd i'w weld yn cael effaith yn y maes hwn.

### 3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)[iii]

Mae'r gyllideb deunyddiau wedi cynyddu ychydig yn 2019/20, ynghyd â'r ffigur ar gyfer cyfanswm y caffaeliadau, er nad yw'r naill darged na'r llall wedi'i gyflawni. Roedd y datganiad yn nodi bod stoc wedi'i chaffael yn ddiweddar ar fin cael ei hychwanegu at y system pan gaewyd y llyfrgelloedd ym mis Mawrth, ac o ganlyniad nid yw'r stoc hon wedi'i chynnwys yn y ffigurau a adroddwyd. Mae Blaenau Gwent yn un o ddau ar bymtheg o awdurdodau nad ydynt wedi cyflawni'r targed caffael (DA 9) yn 2019/20. Mae nifer y benthyciadau Cymraeg fesul pen o'r boblogaeth wedi cynyddu'n sylweddol er 2018/19, ac mae hwn yn ddatblygiad cadarnhaol. Mae'r buddsoddiad yn y gyllideb deunyddiau yn un o'r rhai isaf yng Nghymru o hyd, ac yn achosi pryder.

Mae Blaenau Gwent ar y lefel ganolrifol o hyd ar gyfer nifer y dyfeisiau cyfrifiadurol sydd ar gael i'r cyhoedd, ac mae defnydd o TGCh a gofnodwyd yn parhau yn y chwartel uchaf yng Nghymru.

Mae'r gwasanaeth yn parhau i gyflawni'r targedau ar gyfer cyflenwi ceisiadau, ac fel un o bartneriaid y cynllun benthyca rhwng llyfrgelloedd rhanbarthol, Books4U, mae'n cydweithio â phartneriaid eraill er mwyn parhau i hyrwyddo a datblygu'r gwasanaeth hwn a sicrhau bod cwsmeriaid yn gallu cael mynediad at yr adnoddau y mae arnynt eu hangen.

### 3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)[iv]

Mae cyfanswm y staff wedi gostwng ychydig yn 2019/20 a nodir bod hyn o ganlyniad i geisiadau staff am ymddeoliad hyblyg. Nid yw'r targed cyffredinol ar gyfer staff fesul pen o'r boblogaeth yn cael ei gyflawni ac mae'n parhau ymhlith y rhai isaf yng Nghymru. Mae cyfanswm y staff y nodwyd bod ganddynt gymwysterau cydnabyddedig wedi aros yr un fath ac mae'n parhau i achosi pryder.

Er hyn, mae darpariaeth gynhwysfawr, unffurf yn yr holl fannau gwasanaeth, a chaiff gwasanaethau eu teilwra i ddiwallu anghenion cymunedau.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi cynyddu'n raddol, ychydig dros 3%, er 2017/18, ac mae gwariant fesul pen o'r boblogaeth yn is na'r canolrif. Mae oriau agor blynyddol cyfanredol wedi cynyddu 20% er 2018/19 gan fod oriau danfon i'r cartref wedi'u cynnwys ac mae'r targed wedi'i gyflawni, ond mae'n parhau'n is na'r canolrif yng Nghymru. Ni wnaeth Blaenau Gwent sôn am unrhyw oriau agor di-staff, achosion heb eu cynllunio o gau mannau gwasanaeth sefydlog na cholli gwasanaeth danfon i'r cartref yn ystod 2019/20.

## 4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad gofynnwyd i awdurdodau ddweud sut y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru a'i nodau strategol. Mae Blaenau Gwent yn adrodd yn dda am nifer o wahanol wasanaethau sy'n berthnasol i nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Dangosodd y Gwasanaeth ei ymrwymiad i Gymru ffyniannus drwy ei bartneriaeth barhaus â banc NatWest, gan sicrhau bod defnyddwyr yn cael cefnogaeth â'u hanghenion ariannol. Yn ogystal â chlybiau gwaith, gwelir dull rhagweithiol o ddiwallu anghenion addysgol y gymuned. Mae'r partneriaid newydd yn cynnwys elusen leol Hosbis y Cymoedd. Bydd y sefydliad hwn yn helpu'r gwasanaeth i gyflawni'r ddarpariaeth iechyd a llesiant mewn llyfrgelloedd. Mae'r cynllun hwn, ynghyd â chaffis dementia a Darllen yn Well ar gyfer iechyd meddwl yn cyfrannu at y gwaith o sicrhau Cymru iachach.

Nodir bod cyfraniad y gwasanaeth mewn meysydd eraill, gan gynnwys ynni a materion amgylcheddol, unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol, cynhwysiant digidol, a gweithgaredd yn ymwneud â'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru, yn ddangosyddion cadarnhaol o gyflawni'r nodau a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## 5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod ar gyfer y dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ddilynol, nodir bod y weledigaeth ehangach ar gyfer y gwasanaeth yn cael ei hamlinellu yng Nghynllun y Llyfrgell (2018-19). Cyfeiriwyd yn y blynyddoedd blaenorol at ymrwymiad i edrych ar y posibilrwydd o gydleoli gwasanaethau ymhellach, ond nid yw hyn wedi cael ei wireddu'n llawn.

Mae ymrwymiad Blaenau Gwent i weithio mewn partneriaeth yn ffactor allweddol er mwyn galluogi'r gwasanaeth llyfrgell i gyflawni ei weledigaeth:

"Gwella cyfleoedd bywyd pobl, ysbrydoli a chyfoethogi bywydau drwy ddarparu gwasanaethau llyfrgell o ansawdd uchel sy'n berthnasol ac yn hygyrch i bawb".

Mae'r gwasanaeth yn parhau i wireddu'r weledigaeth hon ag amrywiaeth o fentrau a chynlluniau.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn un o gryfderau'r gwasanaeth, ond mae'n hanfodol bod lefelau digonol o fuddsoddi yn galluogi digon o gapasiti i adeiladu ar y partneriaethau hyn er budd cymunedau lleol. Gellid cynyddu'r effaith fuddiol ar fywydau pobl y mae'r gwasanaeth yn ei gael yn barod â mwy o adnoddau. Lansiodd y gwasanaeth gynllun 'dim dirwyon' ym mis Mawrth 2020 a gallai'r dull newydd hwn o fenthyca leihau rhwystrau a chynyddu aelodaeth, ynghyd â chael effaith gadarnhaol drwy greu Cymru fwy cyfartal.

## 6 Casgliad

Darperir gwasanaethau llyfrgell ym Mlaenau Gwent gan Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin ar ran yr awdurdod lleol, a nodir eu bod yn rhan allweddol o gynlluniau'r awdurdod lleol a'r Ymddiriedolaeth ar gyfer darparu gwasanaethau. Mae'r gwasanaeth yn parhau i ddibynnu ar staff o rannau eraill o'r Ymddiriedolaeth, y Cyngor a sefydliadau partner i helpu i ddarparu gwasanaethau. Mae cadernid y gwasanaeth yn y dyfodol yn parhau i beri pryder. Mae'r gwaith partneriaeth parhaus gyda sefydliadau allweddol yn parhau yn un o gryfderau'r gwasanaeth ac yn galluogi Blaenau Gwent i ddiwallu'r anghenion o fewn cymunedau a darparu gweithgareddau priodol. Mae staff y gwasanaeth yn parhau yn un o'i gryfderau, ac mae ffocws cryf ar hyfforddiant staff. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu gan y ffaith fod 99% o'r cwsmeriaid o'r farn fod safon y gofal cwsmeriaid yn dda neu'n dda iawn, er bod lefelau staffio'n parhau'n isel iawn. Mae'r gwasanaeth yn derbyn sgôr dda am y gwahaniaeth y mae'n ei wneud i fywydau pobl a'r effaith y mae'n ei chael ar eu bywydau. Mae'n braf gweld bod y cynnydd bach yn y gronfa lyfrau wedi arwain at gynnydd yn nifer y benthyciadau a'r benthycwyr gweithredol, ac yn y gyfran sy'n dweud eu bod yn teimlo bod y dewis o lyfrau'n dda neu'n dda iawn. Nid yw effaith yr adolygiad newydd a gynhaliwyd yn 2019 yn glir, ond mae'n hanfodol mewn unrhyw gynlluniau yn y dyfodol bod y lefelau staffio ac adnoddau yn briodol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau statudol.

---

[i] *Oherwydd Covid-19, dim ond nodi unrhyw newid yn eu darpariaeth ers y flwyddyn adrodd ddiwethaf y gofynnwyd i awdurdodau lleol ei wneud ar gyfer DA 3 a 4.*

[ii] *Oherwydd Covid-19, cafodd DA 5 a 6 eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20.*

[iii] *Cafodd e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog eu cynnwys yn y ffigurau caffaeliadau ar gyfer DA 9 yn 2019/20. Mae pob awdurdod wedi ychwanegu 201 at gyfanswm ei gaffaeliadau o danysgrifiadau a ariennir yn ganolog. Mae Datganiadau Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gaffaelir yn ganolog.*

[iv] *Oherwydd Covid-19, cafodd DA 15 ei ddileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, ynghyd â hyfforddiant ac oriau gwirfoddoli.*